OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1796 (Cy.191)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Pysgota Môr (Stoc o Gegdduon Gogleddol) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*5 Gorffennaf 2006*
Yn dod i rym	- -	*7 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Stoc o Gegdduon Gogleddol) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 7 Gorfennaf 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid oes dim ym mharagraff (2) yn rhagfarnu effaith adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 o ran unrhyw ddarpariaeth sy'n creu tramgwydd neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â hi.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cegdduon gogleddol" ("*northern hake*") yw cegdduon a gymerir o'r parth adfer cegdduon;

mae i "Cymru" ("*Wales*") yr ystyr a roddir i "Wales" gan adran 155(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**);

ystyr "darpariaeth gyfatebol" ("*equivalent provision*") yw unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Orchymyn arall a wneir at ddibenion gweithredu Rheoliad 811/04 ynghylch unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, y mae ganddi effaith gyfatebol i ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, y gellir rhoi rheithdrefnau ar waith yng Nghymru ynglyn â hi yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981;

mae i "llyfr lòg" ("*logbook*") yr ystyr a roddir i "logbook" yn Rheoliad 2847/93 fel yr helaethir arno yn Rheoliad 2807/83, ac mae unrhyw gyfeiriad at ddogfen neu lyfr lòg yn cynnwys—

(**1**) 1981 p.29. Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 30(2) o Ddeddf 1981 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) 1998 p.38.

(a) unrhyw fap, cynllun, graff, lluniad neu ddyddiadur;

(b) unrhyw ffotograff;

(c) unrhyw ddata, ym mha ffordd bynnag y'i hatgynhyrchir, a gyfathrebir trwy system fonitro cychod sy'n seiliedig ar loeren ac a sefydlwyd o dan Erthygl 3.1 o Reoliad 2847/93;

(ch) unrhyw ddisg, tâp, trac sain neu ddyfais arall sy'n recordio synau neu ddata arall (ond nid delweddau gweledol) fel bod modd eu hatgynhyrchu ymhellach (gyda neu heb gymorth unrhyw gyfarpar arall); a

(d) unrhyw ffilm (gan gynnwys microffilm), negydd, tâp, disg neu ddyfais arall y mae un neu fwy o ddelweddau gweledol yn cael eu recordio arnynt fel bod modd atgynhyrchu'r delweddau ymhellach;

ystyr "y parth adfer cegdduon" ("*the hake recovery zone*") yw'r ardal a ddiffinnir yn Erthygl 1 o Reoliad 811/04;

ystyr "person â gofal" ("*person in charge*"), o ran cwch pysgota, yw'r perchennog, y meistr neu'r siartrwr, os oes un, y cwch pysgota neu asiant unrhyw un ohonynt;

ystyr "Rheoliad 2807/83" ("*Regulation 2807/83*") yw Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2807/83 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cofnodi gwybodaeth ar ddalfeydd pysgod Aelod-wladwriaethau, fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn(**3**);

ystyr "Rheoliad 2847/93" ("*Regulation 2847/93*") yw Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 sy'n sefydlu system reoli sy'n gymwys i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn(**4**); ac

ystyr "Rheoliad 811/04" ("*Regulation 811/04*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 811/2004 sy'n sefydlu mesurau ar gyfer adfer stoc o gegdduon gogleddol, fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn(**5**).

(2) Ceir trin unrhyw wybodaeth a roddir i unrhyw awdurdod at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn fel pe bai hefyd wedi'i rhoi at ddibenion darpariaeth gyfatebol.

(3) Mae i ymadroddion yn y Gorchymyn hwn nad ydynt wedi'u diffinio ym mharagraff (1) uchod, ac y mae'r ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn ymddangos yn Rheoliad 811/04, yr un ystyr yn y Gorchymyn hwn ag ystyr yr ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y Rheoliad hwnnw.

Cofnodi a rhoi cyfrif o amser a dreulir yn yr ardaloedd

3. Mae'r person sydd â gofal cwch pysgota sy'n methu â chofnodi yn ei lyfr lòg yr amser a dreuliwyd yn y parth adfer cegdduon a rhoi cyfrif amdano yn unol ag Erthyglau 19e a 19k o Reoliad 2847/93 fel y'u cymhwysir gan Erthygl 7 o Reoliad 811/2004 yn euog o dramgwydd.

Hysbysiad ymlaen llaw

4.—(1) Mae person sydd â gofal unrhyw gwch pysgota y mae Erthygl 8 o Reoliad 811/04 yn gymwys iddo, sy'n dod i borthladd yng Nghymru heb roi'r wybodaeth y mae'r Erthygl honno'n gofyn amdani, yn euog o dramgwydd.

(2) Caniateir i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig, drwy gyfarwyddyd ysgrifenedig neu ar lafar i'r person sydd â gofal unrhyw gwch pysgota y mae Erthygl 8(2) o Reoliad 811/04 yn gymwys iddo ac sy'n glanio mewn porthladd yng Nghymru, ei gwneud yn ofynnol nad yw'r dadlwytho y

(**3**) OJ Rhif L276, 10.10.1983, t.1; yr offeryn diwygio diwethaf yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1804/2005 (OJ Rhif L290, 4.11.2005, t.10).
(**4**) OJ Rhif L261, 20.10.1993, t.1; yr offeryn diwygio diwethaf yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 768/2005 (OJ Rhif L128, 21.5.2005, t.1)
(**5**) OJ Rhif L150, 30.4.2004, t.1; corigendwm: L185, 27.5.2004, t.1.

cyfeirir ato yn Erthygl 8(2) o Reoliad 811/04 yn cychwyn hyd nes bod swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig yn ei awdurdodi.

(3) Mae person sydd â gofal cwch pysgota y dadlwythir ohono'n groes i unrhyw ofyniad o dan baragraff (2) yn euog o dramgwydd.

(4) Mae person sydd â gofal unrhyw gwch pysgota y mae Erthygl 8(3) o Reoliad 811/04 yn gymwys iddo sy'n methu â rhoi gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan yr Erthygl honno yn euog o dramgwydd.

(5) At ddibenion paragraff (1) a (4), mae'r wybodaeth i'w roi i Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Glanio cegdduon mewn porthladdoedd dynodedig

5.—(1) Mae person sydd â gofal unrhyw gwch pysgota sy'n glanio cegdduon gogleddol yng Nghymru yn groes i Erthygl 9 o Reoliad 811/04 yn euog o dramgwydd.

(2) Os caiff cegdduon gogleddol eu glanio gyntaf o gwch pysgota mewn porthladd yng Nghymru a ddynodwyd fel a bennir ym mharagraff (4) ac—

(a) mae'r gofyniad i bwyso sampl cynrychioliadol, fel a bennir yn Erthygl 12 o Reoliad 811/04, yn gymwys i'r glanio hwnnw, a

(b) nid yw paragraff (3) yn gymwys i'r glanio hwnnw,

y rheolwr at ddibenion yr Erthygl honno yw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

(3) Os caiff cegdduon gogleddol eu glanio o gwch pysgota mewn porthladd yng Nghymru a ddynodwyd fel a bennir ym mharagraff (4) ac—

(a) mae'r gofyniad i bwyso sampl cynrychioliadol, fel a bennir yn Erthygl 12 o Reoliad 811/04, yn gymwys i'r glanio hwnnw; a

(b) mae'r cwch pysgota yn barti i drefniant, a wnaed ymhlith cychod pysgota sy'n defnyddio'r porthladd, gyda pherson neu gorff sy'n gweithredu fel rheolwr arnynt at ddibenion yr Erthygl honno; ac

(c) mae manylion y trefniant, a'r cychod pysgota sy'n barti iddo, wedi cael eu hysbysu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru,

y rheolwr at ddibenion yr Erthygl honno yw'r person neu'r corff hwnnw.

(4) O ran glaniadau yng Nghymru, mae'r porthladdoedd, a phan fo hynny'n gymwys, y mannau glanio ynddynt a restrir yn nhrwydded y DU, wedi'u dynodi at ddibenion Erthygl 9 o Reoliad 811/04.

Cofnodi gwybodaeth am ddalfeydd o bysgod

6. Mae person sydd â gofal cwch pysgota sydd â lwfans goddefiant sy'n fwy na 8% y cyfeirir ato yn Erthygl 10 o Reoliad 811/04, yn euog o dramgwydd.

Cymysgu rhywogaethau

7. Mae person sydd â gofal unrhyw gwch pysgota y caiff cegdduon gogleddol eu stowio neu eu cadw ynddo yn groes i Erthygl 11 o Reoliad 811/04, yn euog o dramgwydd.

Cludo cegdduon gogleddol

8. Os cludir unrhyw symiau o gegdduon gogleddol yn groes i Erthygl 12(2) o Reoliad 811/04, mae perchennog neu huriwr y cerbyd a ddefnyddir i gludo'r cegdduon, a'r person sy'n gyfrifol amdano, yn euog o dramgwydd.

Cosbau ac amddiffyniad

9.—(1) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 neu 8 o'r Gorchymyn hwn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol yn agored—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na £50,000; a

(b) o'i gollfarnu ar dditiad i ddirwy.

(2) Caiff y llys y collfarnir person ganddo neu ger ei fron o dramgwydd o dan erthygl 4, 5, 6, 7 neu 8 o'r Gorchymyn hwn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, yn ddarostyngedig i baragraff (4), hefyd orchymyn fforffedu:

(a) unrhyw bysgod y cyflawnwyd y tramgwydd yn eu cylch; a

(b) ac eithrio yn achos tramgwydd o dan erthygl 8 neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, unrhyw offer pysgota a ddefnyddiwyd wrth gyflawni'r tramgwydd neu mewn gweithgareddau sy'n arwain at hynny.

(3) Bydd unrhyw berson a geir yn euog o dramgwydd o dan erthygl 4, 5, 6, 7, neu 8 o'r Gorchymyn hwn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, yn ddarostyngedig i baragraff (4), hefyd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na gwerth y pysgod y cyflawnwyd y tramgwydd yn eu cylch.

(4) Ni fydd person yn agored i ddirwy o dan baragraff (3) o ran tramgwydd o'r fath os bydd y llys, o dan baragraff (2), yn gorchymyn fforffedu'r pysgod y cyflawnwyd y tramgwydd yn eu cylch; os gosodir dirwy o dan baragraff (3) o ran unrhyw dramgwydd, ni fydd y pŵer gan y llys o dan baragraff (2) i orchymyn fforffedu'r pysgod y cyflawnwyd y tramgwydd yn eu cylch.

(5) Mae cyfeiriadau yn yr erthygl hon at bysgod y cyflawnwyd tramgwydd yn eu cylch yn cynnwys pysgod a ddaliwyd ar unrhyw amser yn y cyfnod pan gyflawnwyd y tramgwydd.

Casglu dirwyon

10.—(1) Os gosodir dirwy gan lys ynadon ar berson sydd â gofal cwch pysgota a gollfernir gan y llys o dramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff y llys—

(a) dyroddi gwarant atafaelu yn erbyn y cwch a oedd yn gysylltiedig â'r tramgwydd a gafodd ei gyflawni a'i offer pysgota a'i ddalfa ac unrhyw eiddo gan y person a gollfarwnyd at godi'r swm ar gyfer y ddirwy; a

(b) gorchymyn dal gafael yn y cwch a'i offer a'i ddalfa am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis ar ôl dyddiad y collfarniad neu hyd nes y telir y ddirwy neu hyd nes y codir y swm ar gyfer y ddirwy yn unol ag unrhyw warant o'r fath, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

(2) Mae adrannau 77(1) a 78 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**6**) (gohirio dyroddi gwarantau atafaelu a diffygion ynddynt) yn gymwys i warant atafaelu a ddyroddir o dan yr erthygl hon fel y maent yn gymwys i warant atafaelu a ddyroddir o dan Ran III o'r Ddeddf honno.

(3) Pan fydd gorchymyn, o ran dirwy ynghylch tramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, o dan Erthygl 95 o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981(**7**) neu adran 222 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995(**8**) (y mae'r ddwy yn ymwneud â throsglwyddo dirwyon o un awdurdodaeth i un arall) yn pennu ardal cyfiawnder lleol yng Nghymru, mae'r erthygl hon yn gymwys fel pe bai'r ddirwy wedi cael eu gosod gan lys yn yr ardal cyfiawnder lleol honno.

(**6**) 1980 p. 43. Diwygiwyd adran 78 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48), adrannau 37 a 46, a Deddf y Llysoedd 2003 (p.39), adran 109(1) ac Atodlen 8 paragraff 219(a).
(**7**) O.S. 1981/1675 (GI 26).
(**8**) 1995 p.46.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeining mewn cysylltiad â chychod pysgota

11.—(1) At ddibenion gorfodi erthyglau 3 i 8 o'r Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaethau cyfatebol, neu er mwyn gweithredu neu hwyluso gweithrediad unrhyw fonitro sy'n deillio o Erthygl 13 o Reoliad 811/04, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn cysylltiad ag unrhyw gwch pysgota yng Nghymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo'r swyddog hwnnw wrth ei ddyletswyddau ac, at y diben hwnnw, caiff fynnu bod y cwch yn stopio a chaiff wneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso mynd ar fwrdd y cwch neu ddod oddi arno.

(3) Caiff y swyddog fynnu bod y meistr a phersonau eraill ar fwrdd y cwch yn dod ger ei fron a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiad sy'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn angenrheidiol at y diben a grwybwyllir ym mharagraff (1) ac, yn benodol—

(a) caiff chwilio am bysgod neu offer pysgota ar y cwch a chaiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol i'r personau ar fwrdd y cwch wneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog ei fod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r archwiliad;

(b) caiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn dangos unrhyw ddogfen ynglŷn â'r cwch, gweithrediadiadau pysgota neu weithrediadau eraill cysylltiedig neu unrhyw ddogfen ynglŷn â'r personau ar y bwrdd sydd dan ofal neu ym meddiant y person hwnnw;

(c) at ddibenion canfod a gyflawnwyd tramgwydd o dan unrhyw un o'r erthyglau hynny neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a chaiff a'i gwneud yn ofynnol i unrhwy berson ar fwrdd y cwch wneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog ei fod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r archwiliad;

(ch) caiff archwilio a chymryd copïau o unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir i'r swyddog neu os daw o hyd iddi ar fwrdd y cwch ac, os cedwir unrhyw ddogfen o'r fath drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff ei gwneud yn ofynnol ei bod yn cael ei chynhyrchu ar ffurf sy'n caniatáu mynd â hi oddi yno; ac

(d) os yw'r cwch yn un y mae gan y swyddog reswm i amau bod tramgwydd wedi cael ei gyflawni ynglŷn ag ef o dan unrhyw un o'r erthyglau hynny neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff gymryd meddiant a dal gafael yn unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir i'r swyddog neu os daw o hyd iddi ar fwrdd y cwch at ddibenion galluogi bod y ddogfen yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth mewn rheithdrefn ar y tramgwydd;

ond nid oes dim yn is-baragraff (d) uchod yn caniatáu i unrhyw ddogfen, y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch, gael ei chymryd i feddiant a dal gafael ynddi ac eithrio tra delir gafael yn y cwch mewn porthladd.

(4) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig bod tramgwydd o dan erthygl 3, 6 neu 7, neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, wedi cael ei gyflawni ar unrhyw amser ynghylch cwch pysgota, caiff y swyddog—

(a) ei gwneud yn ofynnol bod meistr y cwch, neu ef ei hun, yn mynd â'r cwch a'r criw i'r porthladd cyfleus agosaf yn ei dyb ef; a

(b) dal gafael, neu yn ei gwneud yn ofynnol bod y meistr yn dal gafael, yn y cwch yn y porthladd;

ac os bydd swyddog o'r fath yn dal gafael neu yn ei gwneud yn ofynnol y delir gafael ar y cwch bydd y swyddog yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y delir gafael ar y cwch (neu fod hynny'n ofynnol) hyd nes y tynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig pellach a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.